| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd Pensiwn |
| **Dyddiad:** | 15/12/2022 |
| **Teitl:** | Diweddariad achos McCloud |
| **Pwrpas:** | Er Gwybodaeth yn unig |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |

## 1. Cyflwyniad – Beth yw'r achos llys McCloud?

Pan ddiwygiodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn 2014 a 2015 fe gyflwynwyd amddiffyniadau ar gyfer aelodau hŷn. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau o gynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân wedi dioddef anffafriaeth oherwydd nad yw'r amddiffyniadau yn berthnasol iddynt hwy.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau i holl brif gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), i ddileu'r anffafriaeth hon ar sail oed. Gelwir y dyfarniad hwn yn aml yn 'ddyfarniad McCloud' ar ôl aelod o Gynllun Pensiwn y Barnwyr sy'n ymwneud â'r achos.

## 2. Beth mae'n ei olygu i'r CPLlL?

Pan newidiodd y CPLlL o gynllun cyflog terfynol i gynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa yn 2014, roedd aelodau a oedd o fewn 10 mlynedd i'w Oedran Pensiwn Arferol (65 oed fel arfer) ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu gyda gwarchodaeth o'r enw 'tanategiad'. Pan fydd aelod gwarchodedig yn cymryd ei bensiwn, mae'r buddion sy'n daladwy o dan y cynllun cyfartaledd gyrfa a chyflog terfynol yn cael eu cymharu a thelir y swm uwch.

Bydd angen i'r Llywodraeth roi amddiffyniad i aelodau iau sy'n gyfartal â'r amddiffyniad sylfaenol a ddarperir i aelodau hŷn er mwyn dileu'r anffafriaeth. Ymgynghorodd y Llywodraeth yn ddiweddar ar y newidiadau y mae angen eu gwneud i gyflawni hyn. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig i ben ar 8 Hydref 2020. Mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn dadansoddi'r ymatebion a disgwylir ymateb cyn diwedd 2022. Bydd ymgynghoriad pellach yn cymryd lle yn gynnar yn 2023 pan fydd y rheoliadau drafft yn cael eu rhyddhau. Disgwylir i'r rheoliadau terfynol ddod i rym ym mis Hydref 2023.

## 3. I bwy y bydd y newidiadau hyn yn berthnasol?

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu i'r newidiadau fod yn berthnasol i aelodau a oedd mewn gwasanaeth ar 31 Mawrth 2012 ac sydd hefyd gyda gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (heb egwyl o fwy na phum mlynedd).

Os gadawodd aelod y cynllun cyn 1 Ebrill 2014 yna dim ond buddion yn y cynllun cyflog terfynol fydd wedi cael ei gronni, felly ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar eu pensiwn.

## 4. A fydd llawer o aelodau yn gweld cynnydd yn eu pensiwn?

Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n annhebygol o weld cynnydd yn eu pensiwn, a lle mae cynnydd yn daladwy, mae'n debygol o fod yn fach. Mae hyn oherwydd y bydd y rhan fwyaf o aelodau yn cronni pensiwn uwch yn y cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa nag a fyddai ganddynt o dan y cynllun cyflog terfynol.

## 5. Pa waith sydd angen ei wneud?

Mae prosiect McCloud yn brosiect sylweddol ar gyfer y Gronfa a'r cyflogwyr, ac ychydig iawn o newid a ddisgwylir i werth buddion aelodau ar ddiwedd y prosiect. Fodd bynnag, mae'n gyfle gwych i sicrhau bod ein data yn gywir ac yn gyfredol, fel y gallwn ddarparu data cywir ar y Dashfwrdd Pensiynau.

O safbwynt y gronfa, bydd y gwaith yn cynnwys:

- Adnabod y rhai sydd o fewn cwmpas yr amddiffyniad sylfaenol newydd (aelodau actif a'r rhai sydd wedi gadael);
- cael y data sydd ei angen i gyfrifo buddion cyflog terfynol gan gyflogwyr (yn ymwneud yn bennaf ag oriau rhan amser a seibiannau gwasanaeth);
- dilysu'r data a diweddaru cofnodion aelodau'r cynllun;
- ail gyfrifo buddion holl aelodau'r cynllun sydd wedi gadael, a thalu unrhyw dan daliadau/addasu lefel y pensiynau wrth symud ymlaen;
- Cyfathrebu ag aelodau;
- gwneud newidiadau i systemau a phrosesau gweinyddol i wneud gwaith gweinyddol parhaus gan ddefnyddio'r amddiffyniadau sylfaenol newydd o'r dyddiad dod i rym.

O safbwynt y cyflogwyr, bydd y gwaith hwn yn cynnwys:


- darparu data hanesyddol mewn perthynas ag aelodau'r cynllun;
- diweddaru prosesau a systemau i sicrhau bod data hefyd yn cael ei ddarparu'n barhaus ar gyfer aelodau presennol y cynllun.

Bydd y gronfa'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr i'w cynorthwyo i ddeall y gofynion a chwilio am hawddfreintiau o ran sut y gellir darparu'r wybodaeth hon.

## 6. Pa waith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn?

Mae'r gwaith hyd yma wedi cynnwys:

- Darganfod y rhai sydd yng nghwmpas yr amddiffyniad sylfaenol newydd (aelodau actif a'r rhai sydd wedi gadael). Wrth weithio gyda Hymans Robertson, rydym wedi darganfod bod yna tua 11,500 o aelodau y credwn y bydd McCloud yn effeithio arnynt ac y bydd angen rhyw fath o adolygiad arnynt. O ran niferoedd gwirioneddol ym mhob adran, mae'r siart isod yn meintioli nifer yr aelodau ym mhob categori:




Er nad yw'n ymddangos bod 6617 o aelodau actif yn llawer o gofnodion i'w hasesu, mae'n werth nodi bod gan nifer o bobl sy'n gweithio fel staff cymorth mewn ysgolion neu yn y proffesiwn gofal nifer o wahanol swyddi gydag oriau sy'n amrywio'n flynyddol – gall y cofnodion hyn gymryd cryn dipyn o amser i'w dehongli a'u cywiro;

- Gofyn am wybodaeth gan gyflogwyr bach a chanolig. Cysylltwyd â 22 o gyflogwyr a derbyniwyd ateb prydlon gan y rhan fwyaf. Ar hyn o bryd rydym yn aros am ateb gan y 3 chyflogwr arall. Allan o'r 22 o gyflogwyr, dim ond 5 cofnod oedd angen eu diwygio;

- Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cymryd lle gyda'n prif gyflogwyr i drafod y gofyniad data ac i olrhain cynnydd. Mae data wedi dechrau dod drwodd ac mae gwaith wedi dechrau i ddilysu'r data.

## 7. Beth sydd angen ei wneud?

Mae'r gwaith i'w wneud yn cynnwys:

- Parhau i weithio gyda'r cyflogwyr er mwyn cael y data sydd ei angen i gyfrifo buddion cyflog terfynol;

- dilysu'r data a diweddaru cofnodion aelodau'r cynllun;

- ail gyfrifo buddion holl aelodau'r cynllun sydd wedi gadael, a thalu unrhyw dan daliadau/addasu lefel y pensiynau wrth symud ymlaen.

Y gobaith yw y bydd datblygiadau gyda'n meddalwedd yn ein helpu i ail-gyfrifo buddion ar gyfer holl aelodau'r cynllun sydd wedi gadael, a thalu unrhyw dan daliadau/addasu lefel pensiynau wrth symud ymlaen, fodd bynnag teimlwn fod dilysu'r data a diweddaru cofnodion aelodau'r cynllun yn fater o bwys a gorau yw ei wneud â llaw.

Yn y Pwyllgor Pensiynau ym mis Ionawr 2022 cawsom gyllid ar gyfer 3 Cymhorthydd Pensiynau dros dro i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Ar hyn o bryd mae 2 o'r swyddi hyn heb eu llenwi, ac mae recriwtio staff newydd yn her fawr i gronfeydd ledled y DU, yn enwedig swyddi dros dro. Mae hysbyseb swydd wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar i lenwi'r swyddi hyn.

## 8. Casgliad

Bydd y prosiect McCloud yn brosiect mawr i'r gronfa dros y blynyddoedd nesaf. Mae’r gwaith wedi dechrau’n dda ac rydym yn hyderus, gyda chydweithrediad y cyflogwyr, y gallwn gwblhau’r gwaith yn llwyddiannus unwaith y bydd gennym dîm llawn yn ei le.

Fel y crybwyllwyd yn adroddiad y Dashfwrdd Pensiynau, rydym yn gobeithio y bydd y gwaith o ddilysu’r data ar gyfer achos McCloud yn sicrhau bod ein data o ansawdd uchel fel y gall aelodau weld data cyflawn a chywir ar y dangosfwrdd neu ar ein porth Fy Mhensiwn Ar-lein.